Prosiect X

# Cynllun Llifogydd Seth



Simon Cheshire

DRAKE

Javier Jouquin

Roedd Seth yn fachgen oedd yn gofidio o hyd.
Roedd e'n gofidio am bethau yn yr ysgol.
Roedd e'n gofidio am bethau gartref.
Roedd e'n gofidio am anifeiliaid mewn perygl ac am gynhesu byd-eang.





"Paid â gofidio cymaint, Seth," meddai ei fam. "Wnaiff gofidio ddim newid pethau."

Gwyddai Seth fod ei fam yn iawn ond daliai i ofidio beth bynnag.


Roedd Seth yn gofidio am yr afon. Roedd yn rhedeg ar draws y cae y tu ôl i dŷ Seth. Roedd Seth yn gofidio am yr afon yn codi ac yn achosi llifogydd.




Gwelodd adroddiadau ar y teledu am lifogydd. Gwelodd strydoedd a thai'n llawn dŵr budr. Doedd dim yn gofidio Seth yn fwy na'r afon. Roedd e'n gofidio bob tro roedd hi'n glawio.



Darllenodd lyfrau o lyfrgell yr ysgol am lifogydd. Daeth o hyd i dudalennau ar y Rhyngrwyd. Roedden nhw'n dweud beth i'w wneud os bydd llifogydd.







Felly gwnaeth Seth gynllun llifogydd.


# Cynllun Llifogydd Seth


Ein tŷ ni




Troi'r dŵr a'r cyflenwad pŵer i ffwrdd.

Plygio'r sinciau.





Selio'r drysau a'r ffenestri.



Symud eitemau i fyny'r grisiau.



Gwrando ar y newyddion.




Un dydd, yn ystod yr haf, disgynnodd y glaw fel dŵr yn arllwys o fwced. Glawiodd a glawiodd am ddyddiau. Dechreuodd yr afon godi.

"Paid â gofidio, Seth," dywedodd Mam. "Gwnaiff hi beidio â glawio'n fuan."



Wnaeth y glaw ddim peidio. Cododd yr afon. Ymgripiodd y dŵr ar draws y cae. Ymledodd tua'r tai.

Roedd Seth yn ofidus iawn. Rhoddodd gopi o'i gynllun llifogydd i bob tŷ yn y stryd.



Yn fuan cyrhaeddodd y dŵr ardd Seth.

"Doedden ni ddim yn meddwl byddai hyn yn digwydd!" llefodd Dad.

"Beth wnawn ni?" llefodd Mam.



Gwyddai Seth beth i'w wneud. Roedd hi'n amser rhoi ei gynllun llifogydd ar waith!




Dywedodd Seth wrth ei fam a'i dad beth i'w wneud.



1 Troi'r dŵr, y nwy a'r trydan i ffwrdd.





2 Rhoi plygiau yn y sinciau.

3 Symud bwyd ac eitemau bach i fyny'r grisiau.



Roedd hi'n dal i lawio. Ymgripiodd y dŵr yn nes at dŷ Seth.

"Peidiwch â gofidio," dywedodd Seth wrth ei rieni. "Ddaw'r dŵr ddim i mewn os dilynwn fy nghynllun."




Nesaf dywedodd Seth wrth ei rieni i:



4 Nôl planciau o'r garej.

5 Selio'r ffenestri a'r drysau. Hoelio pren yn dynn ar draws fframiau'r drysau.



6 Cadw'r radio ymlaen rhag ofn bod newyddion pwysig.



Gwnaeth Mam a Dad yn gywir fel y dywedodd Seth.



Yn fuan cyrhaeddodd y dŵr y tŷ. Daeth at y waliau a'r drysau seliedig. Daeth ffrwd fain i mewn i'r gegin drwy'r drws. Sychodd Mam y llawr. Ond ddaeth y dŵr ddim i mewn mewn mannau eraill.

O'r diwedd, peidiodd lawio.

Trannoeth, dechreuodd y dŵr gilio. Yn fuan, llithrodd y dŵr 'nôl ar draws y cae.

Daeth Seth, Mam a Dad allan ac edrych o amgylch y stryd. Doedd dim un o'r tai wedi'i ddifrodi. Cadwyd y dŵr allan - oherwydd Cynllun Llifogydd Seth.



"Seth!" galwodd pawb. "Rwyt ti'n arwr! Heb dy gynllun di byddai'n cartrefi wedi eu dinistrio!"



"Felly roeddwn i'n iawn i ofidio," dywedodd Seth, gan wenu.

"Na," dywedodd Mam. "Roeddet ti'n iawn i feddwl ymlaen. Os byddet ti ond wedi gofidio fyddet ti ddim wedi achub ein tŷ. Wnest ti wynebu dy ofid drwy weithredu'n dawel a chall."



Doedd Seth ddim yn gofidio am lifogydd ragor. Roedd e'n gwybod beth i'w wneud amdanynt. Efallai y medrai wynebu ei holl ofidiau yn yr un ffordd.



# Ffeithiau am lifogydd

- Yn 1953 lladdodd llifogydd 300 o bobl yn agos i Lundain. Ar ôl hyn adeiladwyd Atalfa Tafwys ar draws afon Tafwys i warchod rhag gorlifiad.

- Mae gwyddonwyr yn credu y gall cynhesu byd-eang achosi rhagor o lifogydd.

- Gall 5 centimetr o lifddwr achosi i gar arnofio i ffwrdd!

- Mae sawl monsŵn (glaw trwm iawn) yn achosi llifogydd bob blwyddyn mewn rhannau o Asia.

**Jôc**

Q: Beth ydy hoff fwyd octopws?
A: Moron